Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**Ffilm Cymru Wales Swydd-ddisgrifiad:**
**Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol (Casnewydd)**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol Casnewydd (Llawrydd)**

Caiff y wybodaeth ganlynol ei darparu i'ch cynorthwyo â'ch cais. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales ar gael fan yma: www.ffilmcymruwales.com

## Cynnwys


Hysbyseb Swydd ........ 2
Sut i wneud cais ........ 3
Mynediad ........ 3
Nodau'r swydd ........ 4
Cyfrifoldebau Allweddol ........ 6
Ymgysylltu Cymunedol ........ 6
Gwaith Partneriaeth ........ 6
Rheoli Digwyddiadau ........ 7
Cyfathrebu ........ 7
Adrodd a Gwerthuso ........ 7
Amrywiaeth a Chynhwysiant ........ 7
Meini Prawf Gofynnol ar gyfer y rôl ........ 8
Dymunol ........ 8



Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd
Delivered by / Darparwyd gan serco — Restart Scheme / Cynllun Ailddechrau
Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro — Powered by Levelling Up

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Hysbyseb Swydd

**Teitl:** Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol Casnewydd (Llawrydd)
**Adran:** Sgiliau a Hyfforddiant
**Prosiect:** Troed yn y Drws, Casnewydd
**Yn adrodd i:** Rheolwr Partneriaeth (Cymunedau)
**Cyfnod:** 1$^{af}$ o Chwefror 2024 - Tachwedd 2024 (10 mis)
**Cyflog:** £200 y diwrnod yn cynnwys TAW (x 75 diwrnod Chwefror-Tachwedd 2024) = £15,000

Amserlen Dalu: Telir yn fisol drwy anfoneb wedi'i chyflwyno i Ffilm Cymru Wales.

Disgwyliwn y byddwch yn gweithio 7-8 diwrnod y mis rhwng mis Chwefror a mis Tachwedd yn dibynnu ar anghenion y prosiect, a bydd gofyn gweithio mwy o ddiwrnodau ym mis Medi 2024 i weithio yn y Labordy Sgiliau Dros Dro.

**Gweithle'r Prosiect:** Gweithio gartref ac ar leoliad yng Nghasnewydd, gyda mynediad i swyddfa Ffilm Cymru yng Nghaerdydd pan fo angen. Y disgwyl yw i'r gwaith gael ei gyflawni mewn ffordd gyfunol, o bell ac wyneb yn wyneb.

**Dyddiad Cau:** Dydd Mawrth, 2$^{il}$ Ionawr, canol dydd.
**Dyddiadau'r Cyfweliadau:** Dydd Iau yr 11$^{fed}$ o Ionawr.
**Lleoliad y Cyfweliadau:** Canol Casnewydd (lleoliad i gael ei gadarnhau).

Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd
Delivered by / Darparwyd gan Serco — Restart Scheme / Cynllun Ailddechrau
Wedi'i yrru gan Ffyniant Bro — Powered by Levelling Up

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Sut i wneud cais

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac rydym yn angerddol am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

Oni bai ein bod wedi cytuno gyda chi ar fformat gwahanol i'r cais, anfonwch e-bost gyda CV a llythyr eglurhaol i footinthedoor@ffilmcymruwales.com yn amlinellu eich profiad a'ch sgiliau yn erbyn y rhai sydd wedi'u hamlinellu yn y cais hwn. Defnyddiwch y pwnc: CYDLYNYDD YMGYSYLLTU CYMUNEDOL CASNEWYDD.

**Mynediad**

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Meini Prawf gofynnol ar gyfer y rôl ac sy'n arddel hunaniaeth siaradwyr Cymraeg rhugl, Pobl y Mwyafrif Byd-eang, neu bobl F/byddar, trwm eu clyw, Anabl neu niwroamrywiol.

Yn achos ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli eu golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais. Cysylltwch â ni i roi gwybod i ni sut gallwn ni helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod â ni cyn gwneud cais, cymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau gwahanol ar gyfer gwneud cais fel ceisiadau fideo neu ddec sleidiau. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â Siobhan Brennan siobhan@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

Delivered by / Darparwyd gan serco — RESTART SCHEME / CYNLLUN AILDDECHRAU
WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO — POWERED BY LEVELLING UP

## Nodau'r swydd

Nod y rôl lawrydd hon yw sicrhau bod ymgysylltu a chydlynu llwyddiannus yn rhan o weithgarwch y prosiect ar raglen sgiliau a hyfforddiant pwrpasol Ffilm Cymru yng Nghasnewydd, sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mewn partneriaeth â Chyngor Sir Casnewydd.

Bydd gweithgarwch hyfforddi a sgiliau pwrpasol Troed yn y Drws yn cynnwys gweithio gyda chymuned Casnewydd, sefydliadau a phartneriaid sgrin (ffilm a theledu) i gynnal sgiliau a gweithgaredd hyfforddi, yn lleol yn ardal Casnewydd.

Dyma'r gweithgarwch sy'n rhan o'r prosiect hwn:

- Labordy Sgiliau dros dro gyda chyfleoedd hyfforddi pwrpasol
- Creu set ffilm yng Nghasnewydd gyda chyfleoedd gwirfoddoli cysylltiedig
- Digwyddiadau Rhwydweithio Pwrpasol
- Gweithdai Sgiliau Bywyd yn canolbwyntio ar y diwydiannau creadigol

Ein huchelgais ar gyfer y prosiect yw cyrraedd ystod mor eang ac amrywiol o gymunedau â phosibl a byddwch yn ein helpu'n llwyddiannus i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar agor i drigolion Casnewydd, gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli a chyrsiau hyfforddiant a sgiliau pwrpasol yn y diwydiannau creadigol.

Mae Ffilm Cymru yn chwilio am unigolyn sydd â phrofiad o weithio gyda sefydliadau cymunedol ac unigolion yng Nghasnewydd, i helpu i ymgysylltu a chyflawni gweithgareddau cymunedol fel rhan o brosiect sgiliau a hyfforddiant Troed yn y Drws.

Bydd y Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol yn gweithio gyda thîm prosiect Sgiliau Ffilm Cymru. Bydd yn sicrhau bod gweithgarwch y

prosiect o fudd i grwpiau cymunedol ac unigolion yng Nghasnewydd gan fynd i'r afael â chanlyniadau ac allbynnau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a chydgrynhoi a storio tystiolaeth o hyn at ddiben adrodd.

Bydd y Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner, sefydliadau trydydd sector a grwpiau llawr gwlad yng Nghasnewydd i ddatblygu partneriaethau a chychwyn a hyrwyddo'r amryw gyfleoedd sydd yn y Diwydiannau Creadigol trwy ein partneriaid yn y diwydiant sgrin a thu hwnt.

Byddant hefyd yn rhoi cymorth ar raglen ffilm newydd a chyffrous, gyda gwneuthurwr ffilmiau / cwmni arweiniol mewn lleoliad cymunedol i harneisio creadigrwydd Casnewydd gan gynnig ystod o gyfleoedd profiad gwaith.

**Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn un o golofnau canolog agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a bydd yn darparu £2.6 biliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol erbyn mis Mawrth 2025. Mae'r swydd hwn yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.**

# Cyfrifoldebau Allweddol

## Ymgysylltu Cymunedol

- Rheoli perthnasoedd â phartneriaid cymunedol ac unigolion priodol.
- Datblygu a goruchwylio’r gwaith o gynnal a chadw Cronfa Ddata Gymunedol.
- Cyfarfod a chysylltu â grwpiau cymunedol, unigolion a diwydiant, i gyfleu a chyflawni cynllun prosiect ymgysylltu cymunedol, nodau’r prosiect, a’r cyfleoedd.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Partneriaeth a'r Swyddog Gweithredol Sgiliau a Hyfforddiant i gasglu tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau’r cyllid.
- Cynghori ar ddulliau adrodd cysylltiedig er mwyn ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac unigolion.
- Darparu adroddiadau a diweddariadau rheolaidd yn ogystal â bwydo anghenion y gymuned yn ôl i’r Rheolwr Partneriaeth.
- Helpu i recriwtio unigolion i'r prosiect yn unol â'u hanghenion a'u sgiliau a darparu cymorth parhaus ar y cyd ag aelodau eraill y tîm.

## Gwaith Partneriaeth

- Gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i gysylltu â sefydliadau cymunedol yng Nghasnewydd.
- Cynorthwyo ar yr alwad am gomisiynau ar gyfer rhaglen y Labordy Sgiliau gan gynnwys paratoi deunyddiau a llunio rhestr fer o weithgareddau.
- Cynorthwyo partneriaid yn y diwydiant i ddatblygu cyfleoedd cynhwysol a hygyrch i drigolion Casnewydd.

**Rheoli Digwyddiadau**

- Rheoli'r Labordy Sgiliau Dros Dro yng nghanol Casnewydd; gall hyn gynnwys dod o hyd i'r lleoliad ac yna arwain ar y logisteg o sicrhau bod y Labordy yn hygyrch ac yn ddeniadol, amserlennu a threfnu gweithgareddau (gyda chymorth).
- Trefnu digwyddiadau sgiliau a hyfforddiant hygyrch gyda phartneriaid, yng nghymuned Casnewydd, i ymgysylltu a hysbysu ynghylch brosiect Troed yn y Drws a'i gyfleoedd.
- Cyfrannu at y gwaith o ddylunio a datblygu deunyddiau cyfathrebu.

**Cyfathrebu**

- Cynorthwyo â deunyddiau Cyfathrebu i hyrwyddo cyfleoedd y prosiect.
- Cynorthwyo i ddiweddaru tudalennau Cyfryngau Cymdeithasol y prosiect drwy gynnwys lluniau a gweithgareddau'r prosiect pan fo angen.
- Gweithio gyda thîm y prosiect i ddiweddaru'r gweithgarwch.

**Adrodd a Gwerthuso**

- Cynorthwyo ar waith adrodd ac olrhain y prosiect yn unol â chanlyniadau ac allbynnau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gan gynnwys darparu ffurflenni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a thystiolaeth arall yn unol â chynllun casglu tystiolaeth.
- Ar y cyd â'r tîm Sgiliau a Hyfforddiant, cyfrannu at y gwaith gyda gwerthuswr allanol i ystyried cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen a fydd yn llywio dyfodol y rhaglen.

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

- Hyrwyddo a hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Meini Prawf Gofynnol ar gyfer y rôl**

- Profiad blaenorol o gydlynu prosiectau ymgysylltu cymunedol yng Nghasnewydd.
- Profiad blaenorol o reoli digwyddiadau gan gynnwys cyrsiau hyfforddi a dangosiadau.
- Profiad amlwg o greu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni prosiect trawsnewid cyflym.
- Profiad o weithio gydag ystod o bartneriaid cymunedol a rhanddeiliaid cymunedol.
- Profiad a dealltwriaeth o'r sector sgrin a'r celfyddydau ehangach yng Nghymru.
- Cyfathrebwr da a fydd yn gallu cyfleu anghenion ac allbynnau cyflawni i bartneriaid mewnol ac allanol y prosiect.
- Profiad o feithrin a chynnal perthnasoedd â sefydliadau cymunedol, trydydd sector a llawr gwlad.
- Y gallu i feddwl yn gyflym a rheoli heriau pan fyddant yn codi, gan weithio'n annibynnol; gweithiwr trefnus.
- Ymrwymiad i egwyddorion amrywiaeth a chynhwysiant.
- Y gallu i ddefnyddio cyfres Microsoft Office, yn enwedig Excel.
- Gwybodaeth am lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd.
-

**Dymunol**

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â'r diwydiannau creadigol sy'n byw dan anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru.
- Dealltwriaeth o addysg a hyfforddiant ar gyfer y sector sgrin
- Profiad o weithio ar raglenni Llywodraeth y DU
- Peth dealltwriaeth o gynhyrchu yn y sector sgrin yng Nghymru a phartneriaid allweddol
- Rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar).